

## Book Trust Cymru a'r Letterbox Club: *Cefnogi Plant sy'n Derbynn Gofal yng Nghymru*

[www.letterboxclub.org.uk](http://www.letterboxclub.org.uk)  
[www.booktrust.org.uk](http://www.booktrust.org.uk)



# Cyflwyniad i'r Book Trust

Book Trust Cymru yw cangen Gymreig y Book Trust, yr elusen sy'n trawsnewid bywydau drwy gael plant a theuluoedd i ddarllen.

Rydym yn cynnal nifer o raglenni yng Nghymru, yn cynnwys:

- **Bookstart**
- **Pori Drwy Stori**
- **Letterbox Club**



# Beth yw'r Letterbox Club?

- Rhaglen sydd wedi ennill gwobrau, ei nod yw rhoi cefnogaeth addysgol hwyliog i blant 5-13 oed sy'n derbyn gofal.
- Mae pob plentyn yn derbyn parcel lliwgar o lyfrau, gweithgareddau mathemateg, papur ysgrifennu a deunyddiau tebyg eraill unwaith y mis am chwe mis, o fis Mai tan fis Hydref.
- Caiff y plant eu cofrestru ar y rhaglen gan yr awdurdodau lleol neu'r ysgolion sy'n cymryd rhan.

Yng Nghymru, mae 991 o blant wedi'u cofrestru yn 2015 ar draws 21 o Awdurdodau Lleol



# Sut mae'n gwneud gwahaniaeth?

- ***Education Matters in Care (2012)***: Mae'r Letterbox Club yn enghraifft o arfer gorau gyda, 'tystiolaeth amlwg o gynnydd sylweddol yng ngallu darllen plant yn ogystal â gwelliannau pendant mewnmathemateg'
- **Unigryw**: Un o'r rhaglenni cyntaf i gyfuno mathemateg a darllen, ac i gynnig y gefnogaeth honno dros gyfnod estynedig yn uniongyrchol i'r plentyn.
- **Sylw ar amser hanfodol**: Cefnogaeth dros gyfnod yr haf.
- **Mwy na dysgu**: Annog darllen er mwyn pleser a bod yn gyffrous am ddarllen a bod yn berchen ar lyfrau.



*"If my Tracy Beaker were real, she would have relished those parcels."*

Dame Jacqueline Wilson

# Mesur effaith

Mae Ymchwil a Gwerthuso yn rhan bwysig o'r Letterbox Club.

Yng Nghymru, canfu'r gwerthusiad:

- **Cynnydd ar gyfartaledd mewn darllen safonedig o 4.0 dros gyfnod cynllun peilot 2009 a chynnydd o 2.8 yn 2011;**
- **Cafodd 48% o'r plant yn 2009 a 32% yn 2011 lefel Cwricwlwm Cenedlaethol uwch mewn Rhif ar ddiwedd y prosiect;**
- **Lefelau uchel o fwynhad a chyffro ymhlith plant wrth dderbyn parseli personol;**
- **Roedd dros 95% o'r gofalwyr a holwyd yn awyddus i gymryd rhan, ac yn teimlo fod y rhaglen wedi'u helpu nhw i wneud mwy gyda'u plant maeth.**

# Y Parseli

Mae yna bum gwahanol set o barseli:



- **Letterbox Oren** - plant ym Mlwyddyn 1, i fynd ymlaen i Fl 2
- **Letterbox Glas** - plant ym Mlwyddyn 3, i fynd ymlaen i Fl 4
- **Letterbox Coch** - plant ym Mlwyddyn 5, i fynd ymlaen i Fl 6
- **Letterbox Gwyrdd** - plant ym Mlwyddyn 7, i fynd ymlaen i Fl 8
- **Letterbox Melyn** - plant 7-9 oed sydd ag anghenion ychwanegol. Mae'r parseli o lefel uchel o ddiddordeb, ond gallu dysgu is.

# Mwy na dim ond parcel...

- Mae pob plentyn yn cael llythyr sy'n egluro beth sydd yn eu parcel, yn ogystal a llythyrau gan awdurdon y llyfrau ac eitemau ychwanegol fel nodau llyfr a gweithgareddau ysgrifennu!
- Dewisir panel annibynnol i ddewis y llyfrau mwayf addas a'r rhai sydd wedi cael eu hysgrifennu, eu darlunio a'u cynllunio orau.



What ever they send  
I like

(Year 4 girl, Conwy)

*““WAW” dywedais pan ges i’r parcel achos dwi erioed wedi cael pecyn neu barsel yn fy mywyd cyfan. Rwy’n 10 mlwydd oed” Shannon*

# Iaith a chynnwys Cymraeg

- Mae'r parseli **glas** a **coch** yn cynnwys llyfrau Cymraeg ychwanegol – mae'r rhain yn cynnwys llyfrau am Gymru a llyfrau Cymraeg
- Yn dilyn argymhellion yr ALL, mae dau set o barseli ar gael, a anelwyd at ddysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg (mae'r ALLau yn dewis pa barseli sy'n addas i blant yn eu hardal nhw)



# Crynodeb o'r buddion

- Plant yn cymryd mwy o ran yn ei dysgu eu hunain
- Cynnydd mewn darllen a rhif i lawer o blant
- Boddhad i'r plentyn wrth dderbyn cyfres o barseli personol
- Gofalwyr yn cymryd mwy o ran<sup>1</sup>

<sup>1</sup> The Letterbox Club in Wales: School of Education, Evaluation Report



***“Hoffwn pe baech yn gallu gweld ei wyneb yn goleuo pan gyrhaeddodd adre o’r ysgol a gweld ei barsel e yn disgwyl iddo’i rwygo ar agor – roedd y parseli hyn yn rhoi pleser hynod a pharhaus.”*** (Gofalwr bachgen blwyddyn 5/6, Rhondda)

## Astudiaeth Achos: Cymru

Roedd Leanne yn 8 mlwydd 6 mis oed, gydag oed darllen o 7:10, a sgôr safonedig o 94 pan gafodd ei phrofi gyntaf.

Fis ar ôl ei pharsel diwethaf, roedd Leanne yn 9 mlwydd 2 fis oed, gydag oed darllen o 9:10 a sgôr safonedig o 105.

**Roedd Leanne wedi gwneud cynnydd o tua 16 mis yn yr 8 mis rhwng y ddau brawf. Roedd hi wedi ennill 11 o bwyntiau ar ei sgôr safonedig.**

# Symud ymlaen

- Gwefan i aelodau'r Letterbox Club – 3 mis ychwanegol o ymgysylltiad wedi i'r parseli ddod i ben (dechrau ym mis Tachwedd)
- Cefnogaeth i ofalwyr – rhestrau llyfrau ar gyfer oedrannau a themâu gwahanol a chanllawiau ar helpu plant i ddarllen yn cynnwys awgrymiadau gwerthfawr.
- Cynllun peilot Letterbox Club i ysgolion – rhaglen newydd yn defnyddio model y Letterbox Club i gefnogi plant mewn ysgolion - cynllun peilot yn 2015-16



Am ragor o wybodaeth cyslltwch â:

**[Letterbox@booktrust.org.uk](mailto:Letterbox@booktrust.org.uk)**

**[booktrustcymru@booktrust.org.uk](mailto:booktrustcymru@booktrust.org.uk)**

